Erthygl 9 Y Pwyllgor Safonau

9.01 Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau gyda'r aelodaeth, y trefniadau gwaith a'r cylch gwaith canlynol.

9.02 Cyfansoddiad

(a) Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 9 o aelodau, sef:-

i. 5 aelod 'annibynnol' nad ydynt yn aelodau etholedig o'r Cyngor.
ii. 3 Chynghorydd Sir;
iii. 1 aelod o gyngor cymuned yn yr ardal a elwir yn 'aelod cymuned o'r pwyllgor'

(b) Telerau'r swydd.

i. Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o 6 blynedd ac ni ellir eu hailbenodi.
ii. Bydd aelodau'r Awdurdod Lleol sy'n aelodau o'r pwyllgor safonau yn parhau i wasanaethu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad. Gellir eu hailbenodi am 1 tymor olynol pellach.

(c) **Cworwm**.

Ni fydd gan gyfarfod o'r pwyllgor safonau gworwm oni bai fod:

i. o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod
ii. o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(d) **Pleidleisio**

Bydd gan aelodau annibynnol ac aelodau cymuned o'r pwyllgor hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd;

(e) **Aelodau cymuned o'r pwyllgor**.

Ni fydd aelod cymuned o'r pwyllgor yn cymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor safonau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyngor cymuned ef/hi yn cael ei ystyried;

(f) **Cadeirio'r Pwyllgor**

i. Dim ond aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau a all fod yn gadeirydd.
ii. Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan aelodau'r pwyllgor safonau am gyfnod o 4 blynedd. Gellir penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am un cyfnod yn unig.

9.03 Rôl a Swyddogaeth
Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol :

(a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhiant-lywodraethwyr

(b) cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhiant-lywodraethwyr i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau

(c) cynghori'r Cyngor ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau

(d) monitro gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau;

(e) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhiant-lywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau

(f) rhyddhau cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhiant-lywodraethwyr o ofynion sy'n ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau

(g) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y swyddog monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan y Comisiynydd Lleol yng Nghymru.

(h) ymarfer (a) i (g) uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned sy'n gyfan gwbl neu gan mwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny

(i) derbyn adroddiadau blynyddol ar y modd y gweithredir trefniadaeth y Cyngor ar wneud cwyn a'r polisi datgan pryder gyda golwg ar ymgorffori cyfeiriadau at y materion hynny yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor